

21 *Adeiladau calchfaen atyniadol (1862)*

Mae'r adeiladau calchfaen hyn sef y Coleg Normal yn rhan o'r Brifysgol erbyn hyn. Sefydlwyd y Coleg Hyfforddi Athrawon hwn yn 1858. Ceir nifer o dai sylweddol ac od yn rhan hon o'r ddinas sydd yn adlewyrchu cyflwr llewyrchus y dref ar ddiwedd y 19eg ganrif fel canolfan fasnachol ac addysgiadol.

22 *Safle'r George*

Tan yn ddiweddar, dyma brif leoliad y Coleg Normal ac yr oedd yn wreiddiol yn hostel ar gyfer teithwyr yn dal y fferi i Ynys Môn, ond fe'i gwnaed yn enwog yn ystod y 19eg ganrif gan Miss Elen Roberts fel man aros i ymwelwyr a ddeuai i edmygu'r ddwy bont enwog dros yr Afon Menai.

23 *Hen Ysgol Ramadeg*

Symudodd yr hen Ysgol Ramdeg, sef Ysgol Friars i'r safle hwn yn 1900. Dyma adeiladau tywodfaen dymunol sydd yn rhan o Goleg Menai erbyn hyn.

24 *Coleg Bala/Bangor (Annibynnol)*

Tan yn ddiweddar, yr oedd yr adeilad hwn yn cael ei adnabod fel Coleg Bala/Bangor a Choleg Diwinyddol y Bedyddwyr. Mae'n nodweddiadol o'r cyfnod Fictorianaidd ac Edwardaidd pan oedd briciau sglein coch a melyn yn boblogaidd (1880-1914, a 1988: Safeway).

25 *Gorsaf Rheilffordd Bangor*

Dyma un rhan o'r brif orsaf wreiddiol rhwng Caer a Chaerdybi (1848) (gweler monogramau CH). Dyma derfyn y lein cyn agor Pont Britannia ar gyfer croesi'r Afon Menai (1850). Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd Amgueddfa Reilffordd yng Nghastell Penrhyn.

26 *Coleg y Santes Fair, rhan o'r Brifysgol*

Adeiladwyd y coleg hwn yn 1893 fel Coleg Hyfforddi Athrawon gan yr Eglwys yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'n ffurfio rhan o'r Brifysgol.

LLWYBRAU CERDDED YN Y DREF

PAN FO'R TYWYDD YN ARW

Mae rhifau 2 a 3 yn cynnig cysgod. Felly hefyd Ganolfan Siopa Deiniol ar gael sydd wedi ei leoli yn ymyl y Cloc ar y Stryd Fawr, ger Rhif 6.

PAN FO'R TYWYDD YN DEG

*Gallwch grwydro ar hyd llwybrau mwy egniol gan gymwys:
Llwybr y Mileniwm:*

a. LLWYBR Y MILENIWM

Gan gychwyn o Borth Penrhyn (Rhif 14), - ym mhen pellaf y cei gallwch fynd heibio i Swyddfâr Porth* os dymunwch, dros y bont ("1820") gyda'r llythrennau G.H.D.P. arni, sef enw George Hay Dawkins Pennant, adeiladwr Castell Penrhyn. Yna ewch drwy barc trionglog bychan gyda golygfa o Fae Hiracl, ar hyd palmant llydan Lôn Glan y Môr, yna rhwng y cae chwarae ar blaendraeth; heibio iard gychod Dickie's ac i fewn i hen bentref Garth. Yma cewch dafarnau, maes parcio bychan, gerddi, toiledau a mynediad at yr hen Bier Fictorianaidd (500m o hyd). *Gerllaw, mae man cychwyn llwybr beicio'r hen reilffordd.

b. AR "FYNYDD" BANGOR


Gallwch fynd ato o'r Stryd Fawr (i) pen Gorllewinol, ger yr orsaf a Ffordd Farrar. Dyma lwybr hamddenol gyda golygfeydd dramatig dros y rheilffordd ar orsaf rhwng y ddau dwnnel. Mae'n bosibl troi i'r chwith ac i'r De o Rif 26 ac yna cerdded ymlaen at y Stryd Fawr drwy Lôn Popty ger Rhif 5. (ii) Ewch ar hyd Lôn Popty (gyferbyn â Rhif 4), ac yna ewch i'r chwith a cherdded ar hyd y grib, ochr yn ochr ar cwrs golff a ac i lawr heibio Rhif 13, fel y nodir yn y cynllun.

(c) AT Y "GWERSYLL RHUFEINIG"

Ceir golygfa o'r Afon Menai a Bae Beaumaris o'r man hwn. Gallwch un ai gerdded oddi wrth Rhif 9 (sef y Porth Coffa) ar hyd Lôn y Coleg, gan anelu tuag at y Dwyrain, ne fe allwch gerdded ar hyd Lôn Cariadon sydd gerllaw Rhif 7 ac yna dilyn llwybr ger Rhif 20 drwy coedwig ac ymlaen i dir agored. Yna gallwch grwydro ar hyd Ffordd Menai (Ffordd Siliwen erbyn hyn) sef ffordd glan y môr sydd yn arwain at Warchodfa Natur fechan ar lan y môr yn Nant Porth.

LLWYBRAU CERDDED YM

MANGOR



CYNGOR GWYNEDD
CYMDEITHAS DDINESIG BANGOR



1 *Hen Blas yr Esgob*

Swyddfeydd Cyngor Gwynedd sydd yma erbyn hyn, ond fel Neuadd y Dref caiff ei adnabod hyd heddiw. Cafodd ei adeiladu yn y 16eg Ganrif, gydag ychwanegiadau o'r 18fed a'r 19fed Ganrif. Mae yma risiau hardd a gwaith plastro cain yn Siambr y Cyngor ar y llawr cyntaf. Ceir Canolfan Groeso ar y gornel ogledd ddwyreiniol.

2 *Amgueddfa ac Oriol Gelf*

Yn yr Oriol cynhelir arddangosfeydd dros dro sydd o ddiddordeb lleol a chenedlaethol; mae gan yr amgueddfa gasgliad amrywiol o hen bethau, hanes lleol, lluniau, gwisgoedd a dodrefn. Siop Grefftau ar agor o ddydd Mawrth i ddydd Gwener 12.30 – 4.30. Ar agor o 10.30 ar ddydd Sadwrn.

3 *Cadeirlan Deiniol Sant*

Yn ôl traddodiad, sefydlwyd mynachlog yma yn ystod y 6ed ganrif gan Sant Deiniol, Esgob cyntaf Gogledd Cymru, a dyma un o'r safleoedd eglwysig hynaf ym Mhrydain sy'n cael ei ddefnyddio hyd heddiw. Nid oes dim yn bodoli o'r cyfnod hwnnw ag eithrio rhai beddau a ddarganfuwyd yn 1925 tu hwnt i'r afon (sydd yn ffos danddaearol erbyn hyn) ym Mharc y Coleg (Rhif 7). Mae'r Gadeirlan bresennol yn dyddio'n ôl i'r 13eg – 14eg ganrif, ond bu llawer o waith adnewyddu arni yn ystod y 19fed ganrif. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r eglwys yn dal i ddyddio o'r 12fed ganrif ac mae yma arddangosfa o ddeunydd cynnar, gan gynnwys teils diddorol o'r canol oesoedd. Caiff golygfa adnabyddus o ddrama Shakespeare, Henry IV Part I ei gosod ym mynwent y Gadeirlan.

4 *Cyn Westy'r Castell*

Dyma safle hynafol, ac a fu mewn defnydd cyson fel llety a thafarn ers y 16eg ganrif, gyda golygfa dros yr hen farchnad. Dymchwelwyd y gwesty diweddaraf ("The Castle") yn ystod y 90au cynnar. Erbyn hyn mae yma siop gadwyn, tafarn, toiledau a maes parcio aml-lawr.

5 *Cae Llepa*

Dyma stryd deras ddeniadol gyda golygfeydd gwych a strydoedd cefn difyr.



6 *Neuadd y Penrhyn*

Cyflwynwyd y Neuadd hon i'r Ddinas gan yr Arglwydd Penrhyn cyntaf yn 1857. Darlledwyd nifer o raglenni adloniant yma gan y BBC (gan gynnwys yr enwog ITMA), yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cynhelir cyfarfodydd Cyngor y Dref yn y Neuadd hon.

7 *Parc y Brifysgol*

Mae'n bosibl bod hwn yn rhan o'r fynachlog sy'n dyddio'n ôl i'r 6ed ganrif. Yma ceir mynwent a sylfeini cynnar.

8 *Prifysgol Cymru, Bangor*

(Prif Adeilad y Celfyddydau a Gweinyddiaeth)
Dyma adeiladau Edwardaidd gwych gan Thomas Hare, gydag ychwanegiadau diweddarach. Ceir golygfa ysblennydd o'r teras, sydd yn ogystal â Pharc y Brifysgol yn agored i'r cyhoedd.



9 *Y Porth Coffa*


Codwyd y gofeb hon er cof am holl filwyr Gogledd Cymru a laddwyd yn ystod rhyfel 1914-18.

10 & 11

Dwy res dda o dai teras o ganol y 19eg ganrif

Codwyd y ddwy res yma fel menter arbrofol ar ôl i Telford adeiladu ei bont a gwneud Bangor yn un o'r prif fannau aros ar y daith goets i Gaerbybi.

- Taith gerdded fer / Short walk
- Taith gerdded hir / Long walk
- - - - Lwybrau troed / Footpaths
- Mannau Agored Cyhoeddus / Public open spaces
- ☁☁ Coedlan / Woodland
- ▨ Adeiladau Brifysgol / University buildings
- ☀ Gweldfomau / Viewpoints



There are many buildings in the High Street dating from the early 19th century. Look above the shop fronts for these features.

Mae nifer o adeiladau yn y Stryd Fawr sy'n dyddion o'i'r 19 ganrif. Edrychwch ar du blaen y Siopau i weld y nodweddion hyn.

BETHESDA (A5)
CONWY (A55)
CASTELL PENRHYN CASTLE



12 *Tŷ Tan yr Allt*

Adeiladwyd y tŷ hwn ar gyfer archddiacon Meirionnydd yn 1755 ac yn rhyfeddol, ni wnaed llawer o newidiadau iddo. Erbyn hyn mae angen gwaith adnewyddu arno.



13 *Port Gwesty Arfau'r Penrhyn*

Arferai'r gwesty gynnwys 130 o welyau a stablau ar gyfer 100 o geffylau. Saif y porth o hyd i nodi mai ar y safle hwn y sefydlwyd y Brifysgol yn 1884; symudwud ef i'w safle presennol ym 1910. Bryd hynny, yr oedd y brif ffordd yn rhedeg rhwng y gwesty a Mynydd Bangor, ac ymlaen ar hyd y Stryd Fawr.



14 *Porth Penrhyn*

Crëwyd hwn gan Richard Pennant yn 1790 ar gyfer allforio llechi o chwareli Bethesda. Saif amryw o adeiladau gwych a diddorol hyd heddiw, ac un ohonynt yw'r enwog adeilad crwn ar y cei sydd yn cynnwys deuddeg o doiledau dynion.




15 *Datblygiad tai 1927*

Datblygwyd y tai hyn gan COPEC, sef sefydliad ar gyfer diwygiad cymdeithasol. Y cynllunydd oedd H.L. North.



16 *Safle Mynachlog Ddominicaidd*

Dyma safle sy'n dyddio'n ôl i'r 13-14eg ganrif ac a ddaeth ym Ysgol Ramadeg yn 1557. Yn ddiweddarach, symudwyd 'Ysgol Friars' i ben arall y dref (Rhif 23) ynghyd ag olion olaf y Fynachlog – cerrig beddi cain o'r 14eg ganrif. (Gwelir tair ohonynt yn yr Amgueddfa (Rhif 2).



17 *Y Pier Fictorianaidd*

Agorwyd y pier yn 1896 ac fe'i hadnewyddwyd gan Gyngor y Dref yn 1988. Dyma un o'r ychydig rai sydd wedi goroesi heb eu newid ac mae'r holl gabanau gwreiddiol yn dal yn rhan ohono.

18 *Y Tŷ llêr arhosodd Telford*

Dyma'r tŷ yr arhosodd Telford ynddo tra'r oedd yn goruchwyllo adeiladu Pont Grog Menai (1826) (Ceir arddangosfeydd yn yr Amgueddfa).

19 *Llannerch gyda golygfeddd godidog*

Tir agored a elwir yn 'Wersyll Rhufeinig' er mai prin yw'r dystiolaeth o hynny. Ceir golygfeydd godidog dros yr Afon Menai, Bae Biwmares a Phen y Gogarth.

20 *Gardd breifat*

Gardd breifat gain ar lethr. Gellir ei gweld yn glir oddi ar Ffordd Garth Uchaf a Lôn Cariadon.